

2015 Rhif 1907 (Cy. 278)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A477
(Cylchfan Caeriw, Man i'r Dwyrain
o Milton i Gylchfan Waterloo, Doc
Penfro, Sir Benfro) (Cyfyngiadau
Cyflymder Dros Dro a Dim
Goddiweddyd) 2015**

Gwnaed 2 Tachwedd 2015

Yn dod i rym 9 Tachwedd 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Tachwedd 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Caeriw, Man i'r Dwyrain o Milton i Gylchfan Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 9 Tachwedd 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o’r gefnffordd yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

6. Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Tachwedd 2015

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw, i'r dwyrain o Milton hyd at bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Caeriw.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 910 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw, i'r dwyrain o Milton hyd at bwynt 726 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue, Doc Penfro.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Caeriw hyd at bwynt 910 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 726 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue, Doc Penfro hyd at ochr orllewinol Cylchfan Waterloo, Doc Penfro, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol y gylchfan.